Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymarfer Hap Samplu'r**

**Panel Craffu**

# Adolygiad o Droseddau Casineb ac Achosion Arfau Saethu

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

Hydref 2022

## Cynnwys

## 1. Trosolwg

Ar 17 Hydref 2022, daeth yr Aelodau i gyfarfod Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys Dyfed-Powys. Adolygodd yr Aelodau ddetholiad o achosion arfau saethu a throseddau casineb, yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys. Ystyriodd y Panel gyfanswm o 13 achos, gydag 8 yn cynnwys pobl ifainc y drwgdybir a 5 yn cynnwys oedolion.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn rhithwir drwy'r rhaglen Microsoft Teams.

## 1. Cefndir, diben a methodoleg

Gyda'i gilydd, mae Aelodau'r Panel yn cytuno ar faes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol bythefnos cyn pob cyfarfod sydd wedi'u dewis ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna bydd y Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosibl, dod i gasgliad ynghylch priodoldeb y gwaredu. Wrth benderfynu ar hyn, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:

•Barn ac adborth y dioddefwr a'r troseddwr.

•Cydymffurfio â pholisi'r heddlu.

•Y rhesymeg dros y penderfyniad a'r canlyniad.

•Effaith bosibl ar y gymuned.

•Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd.

•Dewisiadau amgen posibl a allai fod wedi bod ar gael.

Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:

•Defnydd priodol sy'n gyson â pholisi.

•Defnydd priodol gydag amheuon Aelodau'r Panel.

•Defnydd amhriodol neu anghyson â pholisi.

•Panel yn methu â dod i gasgliad.

## 1. Cymeradwyaeth gan Gadeirydd y Panel

Rydw i _David Evans___(eich enw mewn print bras) yn gallu cadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llawn y safbwyntiau a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu dyddiedig 17 Hydref 2022.

**Llofnod: ______David Evans______ __**

**Dyddiad: _ 30/01/2023 __ __**

## 1. Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod diwethaf y panel

**O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, mae'r camau canlynol wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf:**

- **Mae Cofnodi Troseddau wedi cynnwys gwybodaeth am Warediadau y Tu Allan i’r Llys o’r gorffennol ar gyfer pobl ifainc o fewn y ffeiliau achos cyfarfod.**
- **Diwygiwyd y ffurflen Gwarediad Adferol Ieuenctid ar y system er mwyn mynd i’r afael â’r gwall teipio.**
- **Rhoddwyd adborth i swyddogion a aeth i ddigwyddiad perfformiad mewn perthynas â sicrhau bod cofnodion trosedd yn fanwl gan y gall paneli craffu ailymweld â nhw neu eu hadolygu.**
- **Rhoddwyd adborth i Brif Arolygwyr er mwyn sicrhau bod y Tîm Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau perthnasol yn gysylltiedig â’r broses benderfynu wrth gyhoeddi Cytundeb Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.**

## 1. Arfer da

**Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:**

- **Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gwerth sicrhau bod cynrychiolydd o Wasanaeth Erlyn y Goron yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Panel Gwarediadau y Tu Allan i’r Llys.**

## 6.0 Meysydd ar gyfer gwelliant

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella o ganlyniad i waith y Panel y chwarter hwn:**

- **Mae angen sicrhau bod yr holl achosion troseddau casineb yn cael eu cyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor.**

## 7.0 Ystyried achosion arfau saethu – drwgdybiedigion ifainc

**Ystyriwyd tri achos arfau saethu. Ymdriniwyd â’r achosion hyn drwy: un Rhybudd Ieuenctid a dau Warediad Adferol Ieuenctid.**

| Asesiad yr aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol gydag amheuon | 1 |
| Amhriodol | 2 |

**Manylir ar sylwadau Aelodau’r Panel isod.**

**Achos 1**

**Roedd yr unigolyn yn yr achos hwn wedi bygwth unigolion yn eiriol yn wreiddiol gydag arf saethu ffug a rhoddwyd Gwarediad Adferol Ieuenctid iddo. Teimlai'r Aelodau bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol gan nad oedd y drwgdybyn wedi dysgu unrhyw beth, ni ddangosodd unrhyw edifeirwch, ac nid oedd cofnod o ymddiheuriad llawn wedi'i nodi. Roedd y digwyddiad hwn yn un difrifol gan fod y drosedd wedi digwydd tu allan i ysgol.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 2**

**Gwelwyd y drwgdybyn hwn yn anelu at darged y tu allan i ffenestr ei ystafell wely. Er mai hwn oedd trosedd cyntaf y troseddwr, teimlai'r Aelodau bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol drwy Warediad Adferol Ieuenctid. Nodwyd na ddylid fod wedi rhoi Gwarediad Adferol Ieuenctid ar gyfer trosedd arfau saethu. Nodwyd hefyd nad oedd yr heddlu wedi ymgysylltu â'r Tîm Troseddau Ieuenctid mewn perthynas â'r achos hwn. Oherwydd difrifoldeb y drosedd, teimlwyd y dylai'r ymchwiliad a'r adroddiad fod wedi cynnwys manylion pellach mewn perthynas â'r drosedd a'r arf saethu a ddefnyddiwyd.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 3**

**Rhoddwyd Rhybudd Ieuenctid i'r drwgdybyn yn yr achos hwn ar ôl iddo gael ei ddal â nifer o arfau yn ei feddiant, gan gynnwys gwn taser. Roedd gan yr Aelodau amheuon mewn perthynas â'r achos hwn oherwydd ei ddifrifoldeb. Nododd yr Aelodau hefyd bod y sgôr difrifoldeb anghywir wedi'i nodi. Nodwyd mai un oedd y sgôr, ond tri oedd y sgôr cywir. Teimlwyd hefyd bod y rhestr o arfau y daethpwyd o hyd iddynt yng nghyfeiriad y troseddwr yn aneglur.**

**Asesiad y panel: Priodol gydag amheuon**

## 7.1 Ystyried achosion arfau saethu – drwgdybiedigion sy'n oedolion

**Adolygodd yr Aelodau Panel ddau achos arfau saethu a oedd yn ymwneud ag oedolion. Ymdriniwyd â'r ddau achos drwy Rybudd Amodol.**

**Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Priodol** | **1** |
| **Priodol gydag Amheuon** | **1** |

**Achos 4**

**Roedd yr achos hwn yn ymwneud ag arf saethu'n cael ei ganfod yng ngherbyd y drwgdybyn. Rhoddwyd Rhybudd Amodol i'r unigolyn hwn. Er bod y polisi wedi'i ddilyn, roedd gan yr Aelodau rai amheuon am yr achos hwn oherwydd ei ddifrifoldeb a'r swm mawr o gyffuriau y daethpwyd o hyd iddo yn ychwanegol i'r arf saethu. Nid oedd yr Aelodau'n medru penderfynu pa un ai a ddylai'r achos hwn fod wedi mynd i'r Llys ai peidio.**

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

**Achos 5**

**Canfu dau ddryll heb dystysgrif ym meddiant y drwgdybyn yn yr achos hwn a rhoddwyd Rhybudd Amodol iddo. Nid oedd gan yr Aelodau unrhyw bryderon mewn perthynas â'r achos hwn gan fod y troseddwr wedi cynnig ymddiheuriad llawn, roedd yr arfau saethu o fewn y terfyn pŵer cyfreithiol, ac roedd yr unigolyn eisoes wedi gwneud cais am dystysgrif, a oedd yn cael ei brosesu adeg y drosedd.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

## 8.0 Ystyried achosion Troseddau Casineb- drwgdybiedigion ifainc

**Adolygodd yr Aelodau Panel 5 achos. Ymdriniwyd â 3 drwy Rybudd, 1 drwy Waredíad Adferol Ieuenctid ac 1 drwy Ddatrysiad Cymunedol.**

**Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| **Amhriodol** | **5** |

**Manylir ar sylwadau Aelodau'r Panel isod:**

**Achos 6**

**Rhoddwyd Rhybudd i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am greu fideo o natur hiliol. Er bod y drwgdybyn wedi dweud ei fod yn feddw, yn edifar, ac wedi ysgrifennu llythyr o ymddiheuriad, canfu bod ail fideo wedi'i greu yn dilyn y digwyddiad cyntaf. Teimlai'r Aelodau y dylid fod wedi ailymweld â'r achos a'i ddwysáu. Nodwyd hefyd y dylid fod wedi troi at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor yn yr achos hwn gan mai digwyddiad trosedd casineb ydoedd. Yn gadarnhaol, nododd yr Aelodau bod y broses Tîm Troseddau Ieuenctid wedi'i gweithredu'n gywir.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 7**

**Rhoddwyd Rhybudd i'r drwgdybyn am ffilmio fideo hiliol a oedd yn cynnwys bygythiadau i ladd. Fel yn achos 6, gan fod yr achos hwn yn ddifrifol, teimlai'r aelodau y dylid fod wedi ei gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 8**

**Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol Ieuenctid i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am alw enwau o natur homoffobig ar y dioddefydd. Roedd yr Aelodau'n anfodlon â'r canlyniad hwn gan nad oedd yr unigolyn wedi dangos unrhyw edifeirwch ac nid oedd wedi cyfaddef i'r drosedd. Nid oedd y drwgdybyn yn derbyn ei eiriau ei hun, ac nid yw**

**gwarediad y tu allan i'r llys yn gymwys heb gyfaddefiad llawn. Canfu hefyd na aed at Wasanaeth Erlyn y Goron fel trosedd casineb am gyngor yn yr achos hwn.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 9**

**Roedd y drwgdybyn yn yr achos hwn wedi ymosod ar y dioddefydd, gan wneud sylw hiliol. Teimlwyd bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol drwy Rybudd Ieuenctid gan na aed at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor fel Trosedd Casineb yn yr achos hwn er bod y polisi wedi'i ddilyn. Nodwyd hefyd bod y drosedd wedi digwydd ym mis Ionawr, ond ni ddaethpwyd i benderfyniad ynglŷn â'r canlyniad tan fis Gorffennaf. Mae hyn yn amser hir ar gyfer achos ieuenctid.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 10**

**Gwnaeth y drwgdybyn yn yr achos hwn sylw hiliol yn erbyn y dioddefydd a rhoddwyd Gwarediad Adferol Ieuenctid iddo. Teimlai'r Aelodau bod y canlyniad hwn yn amhriodol gan nad oedd achosion troseddau casineb yn medru derbyn Gwarediad Adferol Ieuenctid. Nodwyd hefyd nad oedd yr achos wedi'i gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor troseddau casineb.**

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

## 8.1 Ystyried achosion troseddau casineb– drwgdybiedigion sy'n oedolion

**Adolygodd yr Aelodau Panel 3 achos. Ymdriniwyd ag un drwy Rybudd a dau drwy Ddatrysiad Cymunedol.**

**Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:**

| Asesiad yr Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 2 |
| Amhriodol | 1 |

**Achos 11**

**Roedd y dioddefydd yn yr achos hwn wedi derbyn negeseuon testun gan y drwgdybyn a oedd wedi achosi gofid iddo. Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn. Teimlai'r Aelodau bod y canlyniad hwn yn briodol gan nad oedd tystiolaeth bod y negeseuon testun o natur homoffobig.**

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 12**

**Rhoddwyd Datrysiad Cymunedol i'r drwgdybyn yn yr achos hwn am ymddwyn yn gamdriniol yn eiriol ac yn hiliol tuag at staff mewn siop. Er nad oedd yr achos hwn wedi'i gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron, teimlai'r Panel fod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol gan nad oedd unrhyw ddioddefwyr eisiau rhoi datganiad.**

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 15**

**Mae'r achos hwn yn ymwneud â'r drwgdybyn yn derbyn Rhybudd am ddefnyddio iaith hiliol tuag at staff diogelwch a Swyddog Heddlu. Teimlwyd bod yr achos hwn wedi'i waredu'n amhriodol gan nad oedd wedi'i gyfeirio at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor. Nodwyd hefyd bod datganiad gan swyddog yn nodi ei fod yn teimlo bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn hiliol er bod yr achos wedi cofnodi anawsterau tystiolaethol o ran profi bwriad o gasineb.**


**Asesiad y Panel: Amhriodol**

## 9.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn


**Mae'r siart isod yn dangos asesiad y Panel o'r achosion arfau saethu a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:**




**Mae’r siart isod yn arddangos asesiad y Panel o achosion troseddau casineb a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf:**





**Ers mis Tachwedd 2013, mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o warediadau, fel y dangosir yn y graff isod.**





**O'r 513 o achosion a archwiliwyd rhwng mis Ebrill 2013 a mis Hydref 2022, aseswyd bod 57% yn briodol, 21% yn amhriodol ac 20% yn briodol gydag amheuon. Methodd y panel â dod i gasgliad mewn 2% o achosion.**


**Mae'r newid mewn casgliadau a gyrhaeddwyd dros amser i'w weld yn y graff isod:**




**Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad yn ôl math o drosedd fel canran o achosion a ystyriwyd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Hydref 2022.**





**Mae'r graff canlynol yn dangos nifer wirioneddol yr achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel dilynol yn eu cyfarfodydd rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Hydref 2022.**



## 10.0 Ethnigrwydd a Rhyw

**Mae'r siart canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran eu rhyw:**




**Mae'r tabl canlynol yn dangos dadansoddiad o'r achosion a adolygwyd yn y cyfarfod hwn o ran ethnigrwydd.**

| Ethnigrwydd a Nodwyd | Hunanasesiad y Drwgdybyn | Asesiad y Swyddog |
|---|---|---|
| **Gwyn Prydeinig** | **10** | **0** |
| **Gwyn – De Ewrop** | **0** | **1** |
| **Gwyn – Gogledd Ewrop** | **0** | **11** |
| **Anhysbys** | **3** | **1** |

**Nodwyd, lle'r oedd ethnigrwydd wedi'i gofnodi, fod pob un o'r drwgdybiedigion wedi'u nodi fel Gwyn - Prydeinig ond nododd swyddogion eu bod yn Wyn - Gogledd Ewrop yn bennaf.**

**Ni nodwyd unrhyw faterion cydraddoldeb hiliol na rhyw fel rhan o adolygiad y Panel.**

## 11.0 Ffocws y Panel yn y dyfodol

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynodd y Panel yr hoffent ganolbwyntio ar achosion meddu ar gyffuriau yn y cyfarfod nesaf.**

**Cam Gweithredu 1:Dylid cyfeirio pob achos Trosedd Casineb at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor. Mae angen hyfforddiant gloywi ar y prosesau cyhuddo a'r meini prawf ar gyfer waarediadau y tu allan i'r llys.**

**Cam Gweithredu 2:Anfon neges atgoffa at swyddogion a'r Tîm Troseddau Ieuenctid y dylid cyfeirio pob achos trosedd casineb at Wasanaeth Erlyn y Goron am gyngor.**

**Cam Gweithredu 3:Gwahodd CHTh i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn ystyried cynnal cyfarfod wyneb yn wyneb ochr yn ochr â chyfarfodydd rhithwir o fewn y flwyddyn.**

**Cam Gweithredu 4:Bydd achosion yn cael eu hadolygu yn y dyfodol er mwyn ceisio dileu unrhyw ddogfennau diangen neu ddyblyg.**